Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Rhoscolyn a'r Cyffiniau
# Ysgol Santes Gwenfaen
# Rhoscolyn
# LL65 2DX

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Mr Peter Mathias**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 201X: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2012**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Cylch Chwarae Rhoscolyn a'r cyffiniau a gofrestrir ar gyfer 16 o blant o oedran rhwng dwy a hanner a thair oed. Darpara addysg feithrin ar gyfer plant o'r ardal wledig leol, Bae Trearddur, Pontrhydybont, Y Fali a Chaergybi. Darpara'n gyffredinol ar gyfer tri thymor cyn trosglwyddo i leoliadau eraill, bron bob amser i'r feithrinfa yn Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn. Mae'r lleoliad ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer 17 o blant ar y gofrestr, ond ni fydd byth mwy na 16 yn mynychu sesiynau ar unrhyw adeg am bum prynhawn yr wythnos am ddwy awr (1:15 - 3:15).

Daw'r plant sy'n mynychu o ystod eang o amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd. Yn gyffredinol nid ydynt naill ai'n freintiedig nac ychwaith dan anfantais. Ystyrir bod un disgybl gyda rhywfaint o anghenion dysgu ychwanegol. Daw pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig. Nid oes yr un disgybl â'r Gymraeg fel mamiaith.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) yn nhymor yr haf 2011, ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion arwyddocaol yn yr adroddiad hwnnw. Arolygwyd y lleoliad o'r blaen gan Estyn ym mis Mawrth 2006.

Yn ystod yr arolygiad roedd y person yng ngofal y lleoliad yn absennol oherwydd amgylchiadau personol. Cymerwyd ei lle gan yr ymarferwr cynorthwyol. Ysgwyddodd ymarferwr dros dro ei chyfrifoldebau hi.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- y cynnydd da wna pob un o'r plant bron ymhob un maes dysgu;
- y cwricwlwm cytbwys;
- y defnydd gofalus a wneir o wybodaeth asesu i adnabod anghenion unigol; a'r
- defnydd da a wneir o'r amgylchedd lleol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- y cynnydd wnaed ers yr arolygiad diwethaf;
- y cydweithio agos gyda'r ysgol gynradd gyfagos a'r awdurdod lleol;
- y system weinyddu effeithiol sydd wedi ei threfnu'n dda;
- y trefniadau gwaith effeithiol ac agos iawn cydrhwng pob ymarferwr; ac
- asesiad trylwyr ac agored o gryfderau ac ardaloedd ar gyfer datblygu'r lleoliad.

## Argymhellion

Cytunodd yr arolygydd gyda'r lleoliad ynglŷn â'r argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

A1 ymestyn cyfleoedd a'r offer ar gyfer disgyblion i ddatblygu eu medrau yn y defnydd a chymhwysiad o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A2 adolygu trefniadau ar gyfer y plant i ddefnyddio'r ardal tu allan yn fwy rheolaidd ac anffurfiol er mwyn gwneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael; a

A3 chryfhau'r cysylltiad rhwng cynllun datblygu'r lleoliad a phroses hunan arfarnu'r lleoliad fel bod y cynllun datblygu yn mynd i'r afael yn gyson ac yn systematig â'r ardaloedd ar gyfer gwella ac yn cofnodi'r cynnydd a wneir.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda ymhob maes dysgu yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn ddysgwyr meddylgar a brwdfrydig gan ddangos lefelau da o ganolbwyntio yn eu gweithgareddau. Gwnânt ddewisiadau yn synhwyrol ac maent yn dyfalbarhau yn eu hymchwiliadau a'u heriau.

O gyfnod cynnar datblygu, mae pob un yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Yn Saesneg siaradant yn hyderus ac yn glir gyda'i gilydd a gydag oedolion. Gwyddant fod llyfrau yn cynnwys storïau a gwybodaeth ac y dylid darllen llyfrau o'r chwith i'r dde. Mwynhânt ddarganfod am y pynciau maent yn eu hastudio, er enghraifft wrth edrych ar 'Tractor Gwych' ac wrth ymuno mewn storïau cyfarwydd fel 'Mrs Wishey Washey'. Yn y Gymraeg maent yn dechrau defnyddio ymadroddion syml ac i ddilyn cyfarwyddiadau a roddir yn y Gymraeg. Rhifant yn y Gymraeg a Saesneg hyd at 10 ac maent yn gwybod enwau'r lliwiau sylfaenol yn y ddwy iaith.

Mae pob un â diddordeb i ddarganfod mwy am y byd o'u hamgylch. Sylwant ar y newidiadau sy'n digwydd fel mae'r tymhorau'n mynd rhagddynt. Edrychant ar sut mae hadau yn tyfu a bod angen nodded arnynt rhag adar trwy adeiladu bwgan brain. Gwyddant fod adar angen bwyd arbennig, yn enwedig yn y gaeaf. Mae bron pob un yn adnabod eu henwau eu hunain a bod gan lythrennau synau maent yn dechrau eu gwneud yn gywir. Maent yn y cyfnod cynnar o ffurfio llythrennau, gan wneud siapau mawr gyda sialc a brwsh paent yn frwdfrydig.

Mae bron pob un yn adnabod rhifau o fewn deg mewn rhes a phan y'u hysgrifennir fel symbolau rhifiadol. Gwyddant enwau siapau syml a sut i gyfrif defaid ar y fferm. Maent yn dechrau gwerthfawrogi bod gwrthrychau trwm yn suddo a bod gwrthrychau ysgafn yn arnofio.

O fewn y lleoliad mae bron pob un yn defnyddio ystod fach o offer electronig yn briodol. Dilynant lwybr tegan rhaglenadwy ac maent yn dechrau deall sut i'w wneud i ddilyn llwybr penodedig. Defnyddiant gamera yn briodol ac maent yn gwybod y gwneir tost mewn tostiwr. Defnyddiant 'ffôn' ym meddygfa'r milfeddyg i siarad â'r ffermwr.

Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y cawsant fynediad i gyfrifiadur ac nid oes ganddynt ond dealltwriaeth gyfyngedig o sut i lywio trwy raglenni syml a gwrando ac ymateb i ddeunydd ar y cyfrifiadur neu ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i greu darluniau syml..

Mae bron pob un o'r plant yn y lleoliad yn datblygu sgiliau da yn eu gwaith creadigol. Maent yn mwynhau yn egnïol stwffio bwgan brain gyda gwellt ac addurno masgiau bwgan brain yn ofalus gan ddefnyddio glud ac ystod eang o ddeunyddiau i greu effaith. Gwnânt luniau o flodau gan ddefnyddio ystod briodol o liwiau a thechnegau.

**Lles: Da**

Mae pob un yn ymwybodol o bwysigrwydd golchi dwylo ar ôl bod yn y toiled a chyn bwyta neu wneud bwyd. Meddant ddealltwriaeth gynyddol o, ac archwaeth am, fwydydd iach. Maent yn dechrau gofalu am eu hanghenion personol eu hunain yn hyderus. Maent yn bwyta yn ddestlus ac mae llawer ohonynt yn gwisgo a diosg eu dillad allanol yn annibynnol. Mae pob un ohonynt yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae pob un ohonynt yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad, yn cyrraedd yn hapus ac y gadael gan edrych ymlaen at eu hymweliad nesaf.. Maent yn feddylgar yn eu chwarae ac yn rhannu eu syniadau a'u hoffer yn anhunanol. Mwynhânt ysgwyddo cyfrifoldeb, er enghraifft wrth wisgo'r ffedog goch i fod yn gynorthwywr y dydd amser byr brydau.

Mae pob un ohonynt yn gwybod beth yw, ac yn dilyn rheolau'r lleoliad a'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ohonynt. Dangosant bryder am les eraill gan gymryd gofal i osgoi damweiniau wrth chwarae tu allan.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r adeilad yn gymharol newydd ac yn darparu amgylchedd deniadol ac ysgogol i'r plant i ddysgu. Mae'r profiadau a ddarperir yn rhai cyfoethog a llawn dychymyg. Fe'i cysylltir yn agos hefyd â themâu sy'n mynd ymlaen ac a newidir yn rheolaidd. Er enghraifft cysylltir y cynllunio a'r ddarpariaeth gyfredol â'r 'Fferm yn y Gwanwyn'.

Mae gan y lleoliad lawer o weithgareddau ysgogol a ddewisa'r plant i wella eu dysgu ymhob maes. Cynllunnir y cwricwlwm yn ofalus fel y datblygir sgiliau yn systematig ac y diwallir anghenion pob plentyn yn unigol.. Mae ymarferwyr yn drwyadl yn nodi pan fo plant yn llwyddiannus a beth ddylai fod y camau nesaf. Mae'r lleoliad yn fwriadol ac yn effeithiol yn annog pob un o'r plant i archwilio drostynt eu hunain ac i wneud eu dewisiadau eu hunain..

Mae cynllunio trylwyr i ddatblygu medrau llythrennedd a chyfathrebu, a medrau rhifedd ac iaith Gymraeg y plant ac ymhob maes dysgu arall. Mae cynllunio yn gosod allan yn glir beth yw'r amcanion tymor canolig a thymor byr a pha weithgareddau dylid eu trefnu i gwrdd â'r rhain yn llwyddiannus. Mae'n sicrhau bod pob un plentyn yn derbyn ystod o brofiadau diddorol a chytbwys gan ddysgu rhywbeth am ffyrdd o fyw a diwylliannau eraill, er enghraifft wrth ddathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl i ddatblygu hyder plant i ddefnyddio Saesneg a'r Gymraeg gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod llawer o'i dogfennau i gyflawni hyn yn y ddwy iaith. Cryfder arbennig yw'r modd y mae'r lleoliad yn trefnu ac yn cynllunio i ddefnyddio'r amgylchedd gyfoethog, leol ac i ddechrau deall bywyd yn y byd ehangach.

Mae pob ymarferwr yn trefnu ystod eang o weithgareddau yn llwyddiannus iawn ac yn arwain y plant i wneud ei dewisiadau eu hunain o sut ac am ba hyd yr hoffent brofi pob un ohonynt. Gwnânt hyn trwy gwestiynu gofalus ac anogaeth gadarnhaol. Cwestiynant yn fedrus i annog plant i feddwl pethau allan drostynt eu hunain. Medda pob un berthynas gadarnhaol iawn gyda phob un o'r disgyblion ac fe'u hanogant yn llwyddiannus i weithio'n galed, gan wybod y caiff eu hymdrechion eu cydnabod yn gynnes a'u gwobrwyo. Meddant ddisgwyliadau uchel o'r hyn y dylai pob plentyn unigol ei gyflawni ac maent yn arddangos yn effeithiol beth y dylai plant ei wneud i gwrdd â'r disgwyliadau hyn.

Mae gan y lleoliad system drylwyr sydd wedi ei chymhwyso'n ofalus i asesu medrau sylfaenol a'u haeddfedrwydd pan gychwynant yn y lleoliad ac i gofnodi'r cynnydd wnânt. Defnyddir systemau da i gofnodi cynnydd byr dymor ac i nodi'r camau nesaf. Defnyddir y rhain yn drylwyr i ddynodi i rieni a'r lleoliad nesaf, y safonau a'r cynnydd wnaed.

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o dystiolaeth ffotograffig i ddarparu cofnod defnyddiol ac ystyrlon o gynnydd eu plant.

Trafoda'r ymarferwyr yn anffurfiol gyda phob plentyn yn unigol sut y maent yn mwynhau eu gweithgareddau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn annog plant i ystyried sut y gallent wella'r hyn a wnaethant neu i nodi'r hyn wnaethant yn dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn y cyfnod cynnar o ddyfod yn hunan-feirniadol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau eang ac effeithiol i sicrhau iechyd a lles plant. Mae rhai trefniadau da iawn i blant archwilio yn yr awyr agored, gan gynnwys y traeth a'r warchodfa natur leol, ble y dangosant synnwyr o barchedig ofn cynyddol am fyd natur a sut mae anifeiliaid a phobl yn byw ac yn tyfu. Caiff pob un o'r plant arweiniad clir ac anogaeth i fod yn onest a geirwir ac i barchu hawliau a theimladau eraill.

Adnabyddir plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gyflym ac fe ddiwallir yn drylwyr eu hanghenion personol a phenodol.

Mae cysylltiadau gyda rhieni yn y meysydd hyn yn gryf. Anogir rhieni yn llwyddiannus i adnabod yn fanwl sgiliau sylfaenol ac aeddfedrwydd eu plant pan gychwynnant yn yr ysgol ac i fonitro ynghyd â'r lleoliad y cynnydd a wneir. Teimla pob plentyn yn ddiogel yn y lleoliad ac maent yn mwynhau bod yn rhan ohono.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r adeilad gweddol newydd (Y Caban) yn fan lliwgar ac ysgogol ar gyfer plant. Fe'i trefnir yn fedrus i gefnogi dysgu'r plant ac i bwysleisio cydlyniad y profiadau a gasglwyd ynghyd. Mae'r rhain yn meithrin chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus ac yn rhoi hyder iddynt i ymchwilio mewn awyrgylch gefnogol deuluol.

Mae cymhareb briodol o ymarferwyr i blant. Mae pob un o'r ymarferwyr llawn amser yn gymwys ac mae pob un yn perthnasu yn dda iawn gyda phob plentyn yn y lleoliad. Ceir trefniadau da i adnabod anghenion hyfforddi ymarferwyr ac i ddarparu amdanynt. Mae gan y lleoliad fynediad da i gyfleusterau awyr agored helaeth yr ysgol gynradd gerllaw yn ogystal ag i'w hardal chwarae awyr agored ddiogel ei hunan.

Mae'r adnoddau yn gyffredinol o ansawdd a niferoedd da. Maent yn cwrdd â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r ychwanegiad diweddar o gyfleuster cyfrifiadurol wedi cael digon o amser neu adnoddau ychwanegol hyd yn hyn i effeithio'n llwyddiannus ar ddysgu'r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Trefnir a gweinyddir y lleoliad yn dda. Mae arweinydd y lleoliad yn sicrhau bod Anghenion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cwrdd yn llawn. Medda'r lleoliad ethos cadarnhaol a gofalgar, sy'n adlewyrchu'n llwyddiannus gefndir llawn cymhelliant a phrofiadol pob un o'r ymarferwyr. Rhannant ymrwymiad cyffredin i ddarparu yn dda ar gyfer pob plentyn. Ceir trefniadau da i rannu syniadau ac i gydweithio fel tîm cydlynol. Mae gan bob un ohonynt ymrwymiad cadarn i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac i welliant parhaus. Anogir rhieni yn llwyddiannus i gyfranogi'n llawn ym mywyd y lleoliad ac i rannu ym mhrofiadau dysgu cynnar eu plant.

Ceir pwyllgor rheoli bach a gweithgar gaiff ei arwain yn effeithiol gan gadeirydd llawn gwybodaeth. Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau y gwneir penderfyniadau ar sail dealltwriaeth lwyr o anghenion y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r lleoliad yn cwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Gwnaed cynnydd da i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac wrth gyflwyno'r plant i'r Gymraeg.

Ceir cysylltiadau agos sydd yn fuddiol i bawb gyda'r ysgol gynradd gerllaw. Mae'r lleoliad yn rhoi amser ac adnoddau arwyddocaol i ddatblygu medrau cynnar y plant mewn llythrennedd a rhifedd. Medda pob plentyn ymwybyddiaeth dda o'u hardal ac o'r angen i'w gwarchod yn ogystal â'r byd ehangach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinydd y lleoliad a'r staff wedi trafod yn anffurfio a ffurfiol gryfderau ac ardaloedd i'w datblygu ar draws y lleoliad. Ystyriwyd hefyd ddirnadaeth rhieni o'r lleoliad yn y broses hon yn ogystal â barn yr awdurdod lleol. Mae'r ddogfen hunan arfarnu a gynhyrchwyd fel canlyniad i'r broses hon yn ddadansoddiad agored a gonest. Mae'n fanwl gywir. Bu'r pwyllgor rheoli hefyd ynghlwm â'i llunio ac mae ganddynt wybodaeth dda o'r anghenion ar gyfer gwella pellach.

Nid yw'r cynllun datblygu ysgol dilynol i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella wedi ei gysylltu ddigon â deilliannau hunan arfarnu'r lleoliad. Nid oes ynddo ddigon o fanylder i'w wneud yn arf hynod effeithiol ar gyfer llwyddiant i'r dyfodol. Nid yw'n gosod yn ddigon clir y camau i'w cymryd, graddfa amser a'r modd i farnu llwyddiant y mentrau yr ymgymerir â hwy.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r cysylltiadau gyda Chyfnod Sylfaen yr ysgol gynradd gerllaw wedi ei sefydlu'n dda. Cynnwys y rhain drefniadau manwl i sicrhau bod plant yn trosglwyddo yn llwyddiannus i ddarpariaeth meithrin yr ysgol. Defnyddir y bartneriaeth rhwng y ddau leoliad yn dda i ddarparu cyfarwyddyd a chefnogaeth sy'n fuddiol i bawb, er enghraifft wrth werthuso anghenion dysgu ychwanegol ac wrth ddatblygu cysondeb yn y defnydd o feini prawf asesu. Mae cysylltiadau gyda rhieni ac ar sail gymdeithasol ac addysgol yn gadarn ac yn cynnwys cylchlythyr rheolaidd a deniadol. Mae gwasanaeth ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos ac effeithiol gyda'r lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Dosberthir staff yn dda ac effeithiol. Medda'r lleoliad ystod dda o adnoddau ac offer ysgogol sydd wedi eu dewis yn dda ac sydd yn gyffredinol yn cael eu defnyddio'n dda. Fodd bynnag, nid oes llawer o le tu allan i chwarae pan fydd pob plentyn y cymryd rhan yn weithgaredd hon.

O ganlyniad, nid yw plant bob amser yn cael y cyfleoedd priodol i ymestyn eu sgiliau wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn. Defnyddir cyllid yn dda. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd deg o rieni i’r holiadur. Roedd gan bob un farn gadarnhaol am bron pob un agwedd o’r ffordd y trefnir y lleoliad a’r modd y mae yn cael ei redeg. Nid oedd yr un rhiant yn anghytuno gydag unrhyw gwestiwn a ofynnwyd, er nad oedd nifer fach iawn ohonynt yn sicr o sut i ateb nifer fach o’r cwestiynau.

Teimla rhieni bod eu plant yn hoffi’r lleoliad a’u bod yn cael cymorth i ymsefydlu’n dda. Roeddynt yn meddwl eu bod yn gwneud cynnydd da. Roedd pob un ohonynt yn meddwl bod ymddygiad yn dda a bod yr addysgu’n dda. Roeddent yn meddwl bod staff yn trin eu plant gyda pharch ac yn eu hannog i fod yn iach. Teimla pob un bod eu plant yn ddiogel yn y lleoliad a’u bod yn derbyn cefnogaeth briodol.

Teimla pob un eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac roeddynt yn gyffyrddus ynglŷn â chysylltu â’r lleoliad os roeddynt yn pryderu. Roedd pob rhiant yn ymwybodol o’r gweithdrefnau i’w dilyn os oeddynt am wneud cwyn.

Yn gyffredinol, roeddent yn credu bod eu plant wedi eu paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg ac yn meddwl bod y lleoliad yn paratoi ystod dda o weithgareddau ac ymweliadau.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Roedd pob un o’r plant yn y lleoliad yn hapus ac yn hyderus wrth gwrdd ag oedolion. Roeddent yn hoffi’r lleoliad ac yn awyddus i fynychu. Roeddent yn mwynhau cwmni eu ffrindiau. Roeddent yn ymwybodol o’r hyn ddisgwylid ohonynt. Roeddent yn hoffi eu cynorthwywyr ac yn gwerthfawrogi’r  modd cynnes a gofalgar roeddent yn cael eu trin. Roedd pob un o’r plant yn edrych ymlaen at gael eu gofyn i helpu ac i ysgwyddo cyfrifoldebau ac roeddynt yn eu cyflawni o’u gwirfodd.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y saith maes sy'n gwneud cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw'r rhain. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg gan mai hon yw iaith y lleoliad eisoes.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol;<br>- medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>- datblygiad mathemategol;<br>- datblygu'r Gymraeg;<br>- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd;<br>- datblygiad corfforol; a<br>- datblygiad creadigol. |
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn un o isadrannau Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cymru. |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)** | Mae'r bartneriaeth hon, sy'n rhan o'r awdurdod lleol, yn cymeradwyo lleoliadau i ddarparu addysg. Hefyd, mae ganddi'r pŵer i dynnu cyllid yn ôl gan leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). Nod y fenter yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol mewn saith maes dysgu er mwyn diwallu anghenion datblygu gwahanol blant ifanc. Y saith maes dysgu yw:<br>- datblygiad personol a chymdeithasol a lles;<br>- iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>- datblygiad mathemategol;<br>- dealltwriaeth ddwyieithog ac amlddiwylliannol;<br>- gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono;<br>- datblygiad corfforol; a<br>- datblygiad creadigol. |
| **Proffil asesu datblygiad plentyn y Cyfnod Sylfaen** | Proffil asesu wrth ymuno â'r Cyfnod Sylfaen; mae hwn yn ofyniad statudol mewn ysgolion o fis Medi 2011 ac mewn lleoliadau o fis Medi 2012. |
| **Athro ymgynghorol yr awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn y darparu cefnogaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant rheolaidd ar gyfer lleoliadau na'u cynhelir sy'n darparu addysg ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed |
| **Mudiad Meithrin** | Y sefydliad ar gyfer addysg feithrin Cymraeg yw hwn. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy |

| | |
|---|---|
| | gyfrwng y Gymraeg. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA)** | Elusen genedlaethol a sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu mynediad i wasanaethau, hyfforddiant, gwybodaeth a chynllun sicrhau ansawdd. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd** | Elusen genedlaethol sy'n anelu i wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA)** | Mudiad gwirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal ac addysg cyn-ysgol yn y gymuned. |